# Pam fod rhai rhywogaethau mewn perygl?

Anifeiliaid a Phlanhigion
Yr Amgylchedd

## Bwriad Dysgu

- Cydnabod bod poblogaeth rhai anifeiliaid/rhywogaethau mewn perygl o ddiflannu oherwydd, er enghraifft, colli cynefinoedd, dirywiad ffynhonnell fwyd neu erledigaeth.
- Dysgu adnabod a dosbarthu gwybodaeth.

## Sgiliau'r Cwricwlwm Cenedlaethol

**Daearyddiaeth** Byw yn fy myd i: gofalu am leoedd ac amgylcheddau a phwysigrwydd bod yn ddinesydd byd-eang.

**ADCDF** yr amgylchedd naturiol.

## Amlinelliad o'r Gweithgaredd

- Adolygu'r wers ddiwethaf, trafod y cwestiynau yr ysgrifennodd y disgyblion.
- Dosbarthu a threfnu gwybodaeth.
- Ffurfio casgliadau am y rhesymau pam fod anifeiliaid mewn perygl.

## Adnoddau

Taflen annog benagored

Taflen ffeithiau Aderyn y To

NPT Biodiversity
It's our nature
Ein natur ni
Bioamrywiaeth CNPT

# Pam fod rhai rhywogaethau mewn perygl?

**Amlinelliad o'r Wers**

Adolygu'r cwestiynau a'r nodiadau a wnaed gan y plant ers y tro diwethaf - ysgrifennu cwestiynau diddorol am drafodaeth grŵp.

Edrych ar y daflen wybodaeth gyda'i gilydd - trafod y math o destun, megis penawdau, paragraffau, sut y gosodwyd y testun etc.

Beth allwch chi ei ddysgu o'r testun?

Annog y plant i ysgrifennu nodiadau byr ar nodiadau Post-it.

Mae Aderyn y To yn nythu o dan fondo hen adeiladau.

Mae Adar y To yn byw mewn cytrefi.

Grwpio sylwadau'r disgyblion dan y penawdau canlynol ...
Beth ydyw?
Sut olwg sydd arno?
Ble mae'n byw?
Beth mae'n ei fwyta?
Sut mae'n gweddu i'w amgylchedd?
Beth sydd angen arno i oroesi?

Beth allwn ni ei wneud i helpu?

Cymryd awgrymiadau gan y disgyblion, gwneud nodyn o'u syniadau, efallai gan ddefnyddio nodiadau Post-it.

Sut gallwn ni ddenu adar i dir yr ysgol?